



*Cymerwch daith ddirgel
hudol o gwmpas yr Ardd*

1 Gardd y Gwenyn

Yn ystod yr haf, gallwn gael mwy na hanner miliwn o wenynt melyn sy'n hedfan o gwmpas yr Ardd. Medrwch eu gweld yn mynd i mewn ac allan o'n cychod gwenyn o ddiogelwch y Cwt Cwch Arsylwi Gwenyn. Allwch chi weld y gwenyn yn mynd i mewn ac allan o'r cwch? Gallai'r sgrîn eich helpu i weld yn fwy clir.



2 Pwll Dipio

Yng nghanol yr **Ardd Ddeu-fur**, fe welwch chi bwll. Allwch chi weld y pysgod arian o dan y dŵr? Wel, os byddwch yn taflu darn arian i'w pwll, byddant yn gadael i chi wneud dymuniad (i wneud eich dymuniad ddod yn wir, ni ddylech ddweud wrth unrhyw un yr hyn y gwnaethoch ei ddymunio).



3 Dynes y Llyn

Ewch i **Neuadd yr Apothecari** (mae'n edrych fel hen ysgubor) ac edrychwch am y plac yma ar y wal. Nawr ceisiwch weld y gwahaniaeth rhwng y ddwy ferch a ddaeth i'r amlwg o Lyn y Fan Fach. Yn chwedl Meddygon Myddfai, fe ddaeth y dyn a allai weld y gwahaniaeth i briodi'r fenyw y syrthiodd mewn cariad â hi.



4 Cusanau

A hoffech chi weld sut mae pobl yn rhychu eu gwefusau i gusanu?

Yn ein **Bloc Stablau** fe welwch gerflun o wefusau pobl. Efallai y bydd yn eich ysbrydoli i gusanu rhywun yr ydych yn ei garu.



5 Coedwig y Tylwyth Teg

Pan fydd ein hymwelwyr yn mynd adref yn y nos, mae'r tylwyth teg yn dod allan i chwarae. Dewch i'r Goedwig y Tylwyth Teg a byddwch yn darganfod cymysgedd lliwgar o dai tylwyth teg, drysau tylwyth teg cyfrinachol, llygaid iasol ar goeden a hyd yn oed lein golchi dillad tylwyth teg. Cadwch eich llygaid a'ch clustiau ar agor lled y pen ac efallai y byddwch chi hyd yn oed yn gweld tylwyth teg neu ddau... .



6 Y Ddraig Gymreig

Creda rhai pobl bod y ddraig hon wedi ei gwneud gan yr Efail Phoenix yng Nghaerfyrddin ond mae eraill yn honni ei bod wedi hedfan i lawr yma ar ôl ymweld â Llyn y Fan Fach, y llyn hudolus ym Mynydd Du Sir Gaerfyrddin.

Ewch a rhowch gwtsh i'r ddraig er mwyn ei chroesawu a'i chadw yma.



7 Man Atsain

A hoffech chi helpu i wneud y byd yn lle hapusach? Hoffech? Wel, ewch i fyny'r grisiau gan ddilyn ôl troed yr hen neuadd, ar y Plattform Edrych. Yma, defnyddiwch y llun ar y dde i ganfod 'llygad canolog' y coblau. Sefwch yma a dywedwch yn uchel sut y byddwch chi'n gwneud y byd yn hapus - dylech glywed rhywbeth rhyfedd.



8 Tarw Du Cymreig

Crëwch argraff ar eich ffrindiau gyda'ch dewrder - tynnwch eich llun nesaf i'r Tarw, cerflunwaith o anifail godidog. Hyd yn oed yn well, ewch i edrych am wartheg Duon Cymreig go iawn ar ein NNR Waun Las, ychydig i lawr y bryn yma.



9 Coeden Gysgu'r Goedwig Ysbryd

Ydych chi'n teimlo'n flinedig ac yn ffansio gorwedd i lawr? Mae helwyr a ffermwyr Ghana yn chwilio am y goeden Dahoma hon pan fyddant angen cwsg. Mae gwreiddiau enfawr coed Dahoma yn creu manau mawr i gropian i mewn iddynt a chysgu. Cyfieithir Dahoma yn Ghana fel Da = cysgu; Ho = yno; Ma = yn darparu neu'n rhoi. Felly, darganfyddwch y twll cysgu ac esguswch eich bod yn heliwr blinedig.



10 Carreg Iachusol

Dewch i gyffwrdd â charreg las y Preseli. Dyma'r un math o garreg sy'n ffurfio cylch o fewn Côr y Cewri. Credai'r bobl Geltaidd hynafol mai cerrig iachusol oedd cerrig glas y Preseli, felly os ydych chi'n teimlo ychydig yn fregus neu hyd yn oed braidd yn sarrug, ewch ati a rhowch gwtsh iddi.

